monmouthshire
sir fynwy

Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1GA

Dydd Mercher, 21 Mehefin 2017

**Hysbysiad o gyfarfod:**

# Cyngor Sir

## Dydd Iau, 29ain Mehefin, 2017 at 2.00 pm, Council Chamber - Council Chamber

# AGENDA

*Prayers will be said prior to the Council meeting at 4.55pm. All members are welcome to join the Chairman for prayers should they wish to do.*

| Eitem No | Eitem | Tudalennau |
|---|---|---|
| 1. | **Ymddiheuriadau am absenoldeb** | |
| 2. | **Fforwm Agored i'r Cyhoedd** | |
| 3. | **Cyhoeddiad y Cadeirydd a derbyn deisebau** | 1 - 2 |
| 4. | **Datganiadau o Fuddiant** | |
| 5. | **Derbyn cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 16eg o Fai 2017** | 3 - 6 |
| 6. | **Derbyn cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 18fed o Fai 2017** | 7 - 16 |
| 7. | **Derbyn y Rhestr Gweithred o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 18fed o Fai 2017** | 17 - 18 |
| 8. | **Rhestr o Gynigion** | |
| 8.1. | **Cynnig o'r Cynghorydd Sir A. Easson**<br><br>Yn dilyn cynrychiolaeth gan rieni yn fy Ward, a Wardiau cyfagos, sydd wedi dangos pryder bod y Cabinet ym mis Rhagfyr y flwyddyn ddiwethaf wedi cytuno dargyfeirio arian adran 106 o adnewyddu Parc Castroggi yng Nghil-y-coed i'r cae ATP yn y Ganolfan Hamdden. Maen nhw'n dweud bod hi'n bryd adnewyddu a chredant eu bod yn cael eu hanwybyddu; bydd y parc yn cael ei defnyddio'n well os oedd yr offer o safon. Dwedodd y Cabinet, ar ôl cael ei herio, ac yn dilyn cyngor swyddog, y bydd arian adran 106 o'r Safle White Hart, ar ôl iddo gael ei ddatblygu, yn cael ei glustnodi am y gwaith sydd angen ym Mharc | |

| | | |
|---|---|---|
| | Castroggi. Rydw i felly yn dod â chynnig i'r Cyngor, yn chwilio am gymorth i anfon arian o gronfeydd wrth gefn, i ddychwelyd y parc i safon uchel gyda'r adnabyddiaeth a'r hyder y bydd yn cael ei adfer o arian adran 106, yn llawn, maes o law. | |
| **8.2.** | **Cynnig o'r Cynghorydd Sir D. Batrouni**<br><br>Bydd newidiadau pensiwn sy'n cael eu cyflwyno gan lywodraeth y DU i gydraddoli oedran pensiwn menywod a dynion yn golygu gall nifer o fenywod yn Sir Fynwy colli oddeutu £38,000 - £48,000 o gymharu â menywod ymddeolodd yn 60 oed. Mae'r Cyngor hwn yn nodi'r effaith negyddol y bydd hyn yn ei gael ar fywydau'r menywod sy'n cael eu heffeithio, gan wneud hi'n anos iddynt wirfoddoli yn eu cymunedau lleol ac i gynnig amser i'w teuluoedd. Gall hyn gynyddu pwysau ar wasanaethau cyngor, e.e. gofal cymdeithasol, a defnydd gwirfoddolwyr i helpu'r Cyngor darparu rhai o'i wasanaethau. Felly, bydd y Cyngor yn ysgrifennu llythyr i lywodraeth y DU yn amlinellu'i bryderon ac yn dangos cefnogaeth am y cynnig 63 yw'r 60 newydd. Cyfaddawd yw'r cynnig, a fydd yn galluogi pob menyw a ganwyd ar neu ar ôl y 6$^{ed}$ o Ebrill 1953 hyd at y 5$^{ed}$ o Ebrill 1960 i ymddeol ar eu penblwyddi 63 oed. Bydd unrhyw un a ganwyd ar ôl y dyddiad yna'n dilyn amserlen y Ddeddf 2011. | |
| **9.** | **Adroddiadau'r Pennaeth Cyllid** | |
| **9.1.** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2016-2017** | 19 - 26 |
| **9.2.** | **Contractau Dim Oriau Cyngor Sir Fynwy** | 27 - 34 |
| **10.** | **Cwestiynau Aelodau:** | |
| **10.1.** | **O'r Cynghorydd Sir A. Watts i'r Cynghorydd Sir P. Murphy**<br><br>Maint o'n hadeiladau cyhoeddus, o fewn ein portffolio eiddo, sy'n cydymffurfio â safonau deddfwriaeth y Senedd ynglŷn â gosod systemau chwistrellu? | |
| **10.2.** | **O'r Cynghorydd Sir G. Howard i'r Cynghorydd Sir B. Jones**<br><br>Yn dilyn adolygiad meysydd parcio'r flwyddyn ddiwethaf a'r cynnig i gyflwyno pwynt siarsio i geir trydanol yng Nghas-gwent, a fuasai'r Aelod Cabinet yn amlinellu'i ymrwymiad, unrhyw gynigion ac amserlen i ymestyn y cynnig i holl ardal y Sir?<br><br>Rwyf yn gofyn ar ran etholwr sydd wedi prynu car trydan Nissan yn ddiweddar ac sy'n teimlo nad yn unig y byddai'n gyfleus i drigolion i gyflwyno rhwydwaith o bwyntiau siarsio ond buasai efallai'n annog mwy o berchnogaeth o gerbydau o'r fath. Yn ogystal, buasai unrhyw dwristiaid i'r ardal efallai'n cael eu hannog i dreulio ychydig oriau yn ein trefi a phentrefi, wrth i'w ceir ail-lenwi.<br><br>Fel y bydd y Cyng. Jones yn ymwybodol, nid oes rhaid i'r Awdurdod hwn gynnig allfeydd siasio'n uniongyrchol oherwydd eu bod yn cael eu sefydlu'n aml gan gwmnïau eraill bydd yn derbyn ffrwd refeniw; serch | |

| | | |
|---|---|---|
| | hynny bydd ei gadarnhad y bydd CSF'n ymgysylltu â a galluogi'r fath darpariaeth yn cael ei groesawu. | |
| **10.3.** | **O'r Cynghorydd Sir D. Batrouni i'r Cynghorydd Sir R. John**<br><br>Beth yw tair blaenoriaeth yr Aelod Cabinet am addysg yn Sir Fynwy?<br><br>Maint o gynorthwyon dosbarth mewn ysgolion yn Sir Fynwy sydd wedi'u diswyddo'n orfodol yn ystod blynyddoedd academaidd (i) 2012/13 (ii) 2013/14 (iii) 2014/15 (iv) 2015/16?<br><br>Maint o gynorthwyon dosbarth mewn ysgolion yn Sir Fynwy sydd wedi cymryd diswyddiad gwirfoddol yn ystod blynyddoedd academaidd (i) 2012/13 (ii) 2013/14 (iii) 2014/15 (iv) 2015/16?<br><br>Maint o ysgolion sy'n cynllunio diswyddiadau gorfodol y flwyddyn academaidd hon? | |
| **10.4.** | **O'r Cynghorydd Sir D. Batrouni i'r Cynghorydd Sir P. Jones**<br><br>Beth yw barn y weinyddiaeth newydd o gyllidebau cyfun am ofal cymdeithasol yn seiliedig ar ffiniau byrddau iechyd? | |
| **10.5.** | **O'r Cynghorydd Sir D. Batrouni i'r Cynghorydd Sir S. Joness**<br><br>Pryd all y Cyngor disgwyl gweld cynllun y weinyddiaeth i daclo amddifadedd yn y sir? | |

**Paul Matthews**

**Prif Weithredwr**

CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

Cynghorwyr Sir:

D. Batrouni
D. Blakebrough
M. Powell
V. Smith
P. Clarke
D. Dovey
A. Easson
R. Edwards
D. Evans
P.A. Fox
R.J.W. Greenland
L. Guppy
R. Harris
J. Higginson
G. Howard
S. Howarth
D. Jones
P. Jones
S. Jones
S.B. Jones
P. Jordan
P. Murphy
B. Strong
F. Taylor
A. Watts
A. Webb
K. Williams
J.Becker
L.Brown
A.Davies
L.Dymock
M.Feakins
M.Groucutt
R.John
L.Jones
M.Lane
P.Pavia
J.Pratt
R.Roden
T.Thomas
J.Treharne
J.Watkins
S. Woodhouse

## Gwybodaeth Gyhoeddus

**Mynediad i gopïau papur o agendâu ac adroddiadau**
Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

**Edrych ar y cyfarfod ar-lein**
Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

**Y Gymraeg**
Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn gyda dyledus barch i chi roi 5 diwrnod o hysbysiad cyn y cyfarfod os dymunwch siarad yn Gymraeg fel y gallwn ddarparu ar gyfer eich anghenion.

# Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

## Cymunedau Cynaliadwy a Chryf

**Canlyniadau y gweithiwn i'w cyflawni**

**Neb yn cael ei adael ar ôl**

- Gall pobl hŷn fyw bywyd da
- Pobl â mynediad i dai addas a fforddiadwy
- Pobl â mynediad a symudedd da

**Pobl yn hyderus, galluog ac yn cymryd rhan**

- Camddefnyddio alcohol a chyffuriau ddim yn effeithio ar fywydau pobl
- Teuluoedd yn cael eu cefnogi
- Pobl yn teimlo'n ddiogel

**Ein sir yn ffynnu**

- Busnes a menter
- Pobl â mynediad i ddysgu ymarferol a hyblyg
- Pobl yn diogelu ac yn cyfoethogi'r amgylchedd

**Ein blaenoriaethau**

- Ysgolion
- Diogelu pobl agored i niwed
- Cefnogi busnes a chreu swyddi
- Cynnal gwasanaethau sy’n hygyrch yn lleol

**Ein gwerthoedd**

- **Bod yn agored:** anelwn fod yn agored ac onest i ddatblygu perthnasoedd ymddiriedus
- **Tegwch:** anelwn ddarparu dewis teg, cyfleoedd a phrofiadau a dod yn sefydliad a adeiladwyd ar barch un at y llall.
- **Hyblygrwydd:** anelwn fod yn hyblyg yn ein syniadau a'n gweithredoedd i ddod yn sefydliad effeithlon ac effeithiol.
- **Gwaith tîm:** anelwn gydweithio i rannu ein llwyddiannau a'n methiannau drwy adeiladu ar ein cryfderau a chefnogi ein gilydd i gyflawni ein nodau.